

AMODAU SAFONOL I GODI A CHYNNAL SGAFFALDIAU, HORDIN, A/NEU ADEILADWAITH ARALL

DEDDF PRIFYRDD 1980 : ADRAN 169 A 172

STANDARD CONDITIONS TO ERECT AND MAINTAIN SCAFFOLDING, HOARDING, AND/OR OTHER STRUCTURES

THE HIGHWAYS ACT 1980 : SECTION 169 AND 172



<p>1. Ffi na ellir ei ad-dalu</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) £110.00 hyd at 10 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (cyfnod o 3 mis) (ii) £128.00 rhwng 10 a 50 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (cyfnod o 3 mis) (iii) £145.00 dros 50 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (cyfnod o 3 mis) <p>Dull Talu :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Drwy ddefnyddio porth hunan wasanaeth a gwneud taliad gyda Cherdyn Debyd neu Gredyd. Ond noder y codi'r tal ychwanegol os ydych chi'n dewis talu gyda Cherdyn Credyd. 	<p>1. Non-refundable Fee</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) £110.00 up to 10 meters in length - per scaffold, hoarding, and/or other structures (period of 3 months) (ii) £128.00 between 10 and 50 meters - per scaffold, hoarding, and/or other structures (period of 3 months) (iii) £145.00 over 50 meters per scaffold, hoarding, and/or other structures (period of 3 months) <p>Payment Method :</p> <ul style="list-style-type: none"> • By using the self service portal and making payment with a Debit or Credit Card. Note that there will be a surcharge if paying by Credit Card.
<p>2. Estyniada(au) i'r drwydded (ffi na ellir ei ad-dalu)</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) £110.00 hyd at 10 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (fesul pob mis dilynol) (ii) £128.00 rhwng 10 a 50 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (fesul pob mis dilynol) (iii) £145.00 dros 50 metr - fesul sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall (fesul pob mis dilynol) <p>Dull Talu: Trwy ffonio (01766) 771000 (Galw Gwynedd) rhwng 9:00yb a 5:00yh a gwneud taliad gyda Cherdyn Debyd neu Gredyd.</p>	<p>2. Extension(s) to the licence (non-refundable fee)</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) £110.00 up to 10 meters in length - per scaffold, hoarding, and/or other structures (per consecutive month) (ii) £128.00 between 10 and 50 meters - per scaffold, hoarding, and/or other structures (per consecutive month) (iii) £145.00 over 50 meters - per scaffold, hoarding, and/or other structures (per consecutive month) <p>Payment Method: By telephoning 01766 771000 (Galw Gwynedd) between 9:00am and 5:00pm and making payment with a Debit or Credit Card.</p>
<p>3. Rhaid i'r Ymgeisydd :</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Cwblhau y cais o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cychwyn gofynnol y drwydded. (b) Peidio adneuo'r sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith arall ar y Briffordd hyd nes y byddwch wedi derbyn y drwydded. 	<p>3. The Applicant Must :</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Complete the application at least 5 working days before the required commencement date of the licence. (b) Not deposit the scaffold, hoarding, and/or other structures on the Highway until you have received the licence.
<p>4. Mae'n Rhaid i'r Trwyddedai :</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) sicrhau bod y strwythur yn cael ei oleuo'n ddigonol ar bob adeg rhwng hanner awr ar ôl machlud haul a hanner awr cyn codiad haul. (b) cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod mewn perthynas â chodi a chynnal a chadw arwyddion traffig mewn cysylltiad â'r strwythur. (c) gwneud pethau o'r fath mewn cysylltiad â'r sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith pan bod unrhyw awdurdod priffyrdd neu ymgymerwyr statudol yn gofyn yn rhesymol at y diben o warchod neu roi mynediad i unrhyw gyfarpar sy'n perthyn i neu a ddefnyddir neu a gynhelir ganddynt. (ch) cael eu hatgoffa mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y sgaffaldiau neu strwythur arall, yn strwythurol gadarn, yn cael ei godi yn briodol i safonau cyfredol a'u cynnal, a bod darpariaeth ddigonol ar gyfer sicrhau taith ddiogel i ddefnyddwyr y briffordd. (d) pan fo'r angen, ddarparu llwyfan a chanllaw fel llwybr troed i gerddwyr pan mae lled llawn y llwybr troed yn cael ei ddefnyddio gan sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith arall. (dd) sicrhau bod digon o le yn cael ei adael i gerddwyr gyda 	<p>4. The Licensee Must :</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ensure that the structure is adequately lit at all times between half an hour after sunset and half an hour before sunrise. (b) comply with any directions given in writing by the authority with respect to the erection and maintenance of traffic signs in connection with the structure. (c) do such things in connection with the scaffolding, hoarding or other structure that any highway authority or statutory undertaker reasonably requests for the purpose of protecting or giving access to any apparatus belonging to or used or maintained by them. (d) be reminded that it is their responsibility to ensure that the scaffolding or other structure, is structurally sound, is properly erected to current standards and maintained, and that adequate provision is made for the safe passage of highway users. (e) when required, provide a convenient covered platform and handrail to serve as a footway for pedestrians where the full width of the footpath is used by the scaffold, hoarding or other structure. (f) ensure that adequate space is left for pedestrians with

<p>(e) chadeiriau gwthio a defnyddwyr cadair olwyn. cysylltu â'r Uned Parcio (01766 771 000) i wneud trefniadau angenrheidiol os oes manau parcio yn cael eu heffeithio.</p> <p>(f) bydd y strwythur yn cael ei gynllunio, codi, addasu, a datgymalu gan bersonél gyda chymwysterau addas.</p>	<p>pushchairs and wheelchair users.</p> <p>(g) contact the Parking Unit (01766 771 000) to make the necessary arrangements if parking bays are to be affected.</p> <p>(h) ensure that the structure shall be designed, erected, modified, and dismantled by suitably qualified personnel.</p>
<p>5. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio Cyngor Gwynedd yn erbyn unrhyw atafaeliadau, gweithredoedd, achosion, hawliadau, gorchmynion, cost, iawndal a threuliau y gellir eu codi neu ei wneud yn ei erbyn oherwydd unrhyw fater a allai godi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r caniatâd hwn. Y lleiafswm derbynniol ar gyfer gorchydd Atebolrwydd Cyhoedd yw £10 miliwn.</p>	<p>5. The applicant will indemnify Cyngor Gwynedd against any distresses, actions, proceedings, claims, demands, costs, damages and expenses which may be levied, brought or made against it by reason of any matter which may rise directly or indirectly as a result of this permission. The minimum Public Liability Limit of Indemnity required is £10 million.</p>
<p>6. Nodwch, os bydd eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn dod i ben o fewn y cyfnod a gymeradwywyd y drwydded, eich cyfrifoldeb chi yw adnewyddu'r yswiriant fel ei bod yn cyd-fynd a'r polisi blaenorol. Bydd angen gyrru copi o'r polisi newydd i Cyngor Gwynedd. Os na fyddwn yn derbyn y polisi adnewyddu, bydd y drwydded yn annilys ar ddydiad gorffen y polisi blaenorol.</p>	<p>6. Please note that if your public liability insurance expires within the term of the licence it is your responsibility to renew the insurance so that it runs concurrent with the previous policy. Proof of the renewal must be sent to Cyngor Gwynedd as soon as possible. It should be noted that if not received the licence would be deemed invalid.</p>
<p>7 Bydd yr ymgeisydd yn atebol am unrhyw ddifrod i strwythur y briffordd a/neu i gyfarpar Ymgwymerwyr Statudol yn deillio o adeiladu, cynnal a chadw, datgymalu sgaffaldiau, hordin, a/ neu strwythurau eraill ar y briffordd a fydd yn gyfrifol am ad-dalu Cyngor Gwynedd neu ei Asiant am y costau gwirioneddol o atgyweirio unrhyw ddifrod.</p>	<p>7. The applicant will be held liable for any damage to the highway structure and/or Statutory Undertakers apparatus resulting from the erection, maintenance, dismantling of scaffolding, hoarding, and/or other structures on the highway and will be responsible for reimbursing Cyngor Gwynedd or its Agent for the actual costs of making good any damage caused.</p>
<p>8. Ni chaiff yr un sgaffald, hordin, a/neu adeiladwaith arall aros ar y briffordd ar ôl y cyfnod a bennir ar y drwydded. Anfonir anfoneb am y ffi na ellir ad-dalu o £110.00, £128.00, neu £145.00 ynghyd â £122 ychwanegol (bob mis) ar gyfer unrhyw sgaffaldiau, hordin, a/neu strwythurau eraill sydd heb trwydded.</p>	<p>8. No scaffold, hoarding, and/or other structures shall remain on the highway after the period specified on the licence. A invoice for the non-refundable fee of £110.00, £128.00, or £145.00 plus and additional £122 (per month) will be sent for any un-licensed scaffolding, hoarding, and/or other structures.</p>
<p>9. Gall yr awdurdod priffyrdd neu gwnstabl mewn iwnifform gofyn i'r perchennog y sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith arall i dynnu neu ail-leoli neu beri i dynnu neu ail-leoli. Gall unrhyw gostau rhesymol sydd yn gysylltiedig â symud neu ail-leoli'r sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith arall cael ei adennill oddi wrth berchennog yr eiddo.</p>	<p>9. The highway authority or a constable in uniform may require the owner of the scaffolding, hoarding, and/or other structure to remove or reposition it or cause it to be removed or repositioned. Any expenses reasonably incurred in the removal or repositioning of the scaffolding, hoarding, and/or other structure may be recovered from the owner of the property.</p>
<p>10. Gall Cyngor Gwynedd nodi unrhyw amodau perthnasol eraill sy'n ymwneud â lleoliad y sgaffaldiau, hordin, a/neu adeiladwaith arall yn ôl yr angen.</p>	<p>10. Cyngor Gwynedd may also specify any other relevant conditions relating to the placement of scaffolding, hoarding, and/or other structure as they see necessary.</p>